

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Aledwen Jones (Nantglyn) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gweddïwn eu bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Mae'n dda cael adrodd fod Rhiannon Davies (Tanyfron) wedi cael dod adref o'r ysbty. Anfonwn ein cofion ati, gan weddio y bydd yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn ei hamgylchynu.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** nos Lun, Hydref 21ain am 7.30 gyda Theulu Ieuan Edwards, Plas Ednyfed, Llanrwst yn diddanu. Croeso cynnes i bawb.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Peniel nos Fawrth, Hydref 22ain am 7.30 pryd y bydd Dr Mair Edwards, Henllan gynt, yn sôn am ei gwaith fel Seicolegydd.
- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANNEYDD** – Dydd Mercher, Hydref 23ain. Gwasanaeth gan blant yr ysgol yn y bore a phregeth gan y Parch. Hywel Meredydd am 7.00.
- **OEDFAON DDIOLCHGARWCH LLANSANNAN** nos Fercher, Hydref 23ain yn Festri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Carwyn Siddall yn pregethu, ac yna dydd Sul, Tachwedd 3ydd am 10.00 bydd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant gydag anerchiad gan Aneurin.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD Y FRO** – y cyfarfod nesaf yn Llanneydd nos Iau, Hydref 24ain am 7.30.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL Y GROES** nos Wener, Hydref 25ain am 7.00 pryd y bydd y Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL CEFN BERAIN** nos Wener, Hydref 25ain am 7.00 pryd y bydd y Parch. Nesta Davies yn pregethu.
- **CWRS IEUENCTID AR DAITH** dydd Sadwrn, Hydref 26ain rhwng 12.00 a 5.00 yng Nghanolfan Bro Aled, Llansannan. Bydd cinio wedi ei baratoi i chi a bydd llwyth o weithgareddau amrywiol – y cyfan am £5. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Steff neu Gwenno ar www.facebook.com/cwrs.ieuenctid neu ffoniwch Coleg y Bala (01678 520565).
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 8fed – 10fed. Nid penwythnos ar gyfer blaenoriaid newydd yn unig yw hwn, mae croeso cynnes i unrhyw flaenor i fynychu. Manylion llawn ar gael gan Mair. Cysylltwch mewn da bryd, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni fedru archebu lle ar eich cyfer.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Hydref 2013

Darlleniad y Dydd

Actau 22:6-11

(BCND tud.156 / BCN: tud.142)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso i oedfaon y dydd. Mae cyfle newydd wedi ei roi i ni i ddod i addoli'n Harglwydd mawr, a gwnawn yn fawr o'r cyfle lle bynnag yr ydym heddiw i glywed y newyddion da sydd yn y Beibl a chanmol Iesu hefo'n gilydd.

Bûm yng Ngharno'r wythnos hon, pentre lle'r oedd ffatri Laura Ashley nol yn y saithdegau. Trist oedd gweld y lle wedi cau a chlywed fod dŵr yn dod trwy'r to – ffatri a fu mor gynhyrchiol a buddiol i'r ardal. Ond mynd yno i'r Gymdeithasfa roeddwn i!

Un o'r pethau ddaru 'nharo i ar y ffordd oedd y ffordd newydd sydd 'na rhwng Dolgellau a'r Four Crosses – torri'r hen gorneli peryglus yna, sythu'r ffordd a'i gwneud yn ffordd lydan braf. Roedd hyd yn oed yr hen fynedfa beryglus yna o ffordd Brithdir i mewn i'r A470 wedi cael ei gweddnewid a mynedfa ddiogelach o lawer i'r briffordd yno bellach. Meddyliais pa mor hawdd ydi hi i anghofio sut oedd yr hen ffordd yn mynd unwaith mae rhywun wedi cychwyn trafaelio ar hyd ffordd newydd. Buan iawn mae rhywun yn anghofio sut oedd hi o'r blaen ar rhyw ddarn o ffordd er cymaint o weithiau y mae rhywun wedi trafaelio ar hyd-ddi.

Yn y darlleniad mae hanes Paul yn sôn am ffordd Damascus. Dyma lle y daeth wyneb yn wyneb â Iesu. Roedd y goleuni mor llachar fel y cafodd ei ddallu am gyfnod a chafodd ei herio gan yr Iesu byw i feddwl am gyfeiriad ei fywyd. 'Doedd o ddim yn mynd i'r un cyfeiriad wedyn yn siŵr ar ôl cyfarfod Iesu. Newidiodd Iesu Paul o fod yn erlidiwr i fod yn ddisgybl. Newidiwyd ei galon o fod yn lle o gasineb tuag at Iesu i fod yn lle o gariad ac ufudd-dod. O hynny 'mlaen Iesu oedd bopeth iddo. Fe roddodd Paul ei hun yn llwyr i Iesu. Cafodd y fath olwg ar ogoniant Iesu nes gwneud i bopeth arall ymddangos fel pethau eilradd iawn. Roedd o'n cofio'r hen ffordd ond roedd yn trafaelio rŵan ar hyd ffordd newydd.

Yn llyfr yr Actau disgrifir pobl Iesu fel pobl y 'Ffordd'. Pobl sydd yn eiddo i'r Iesu a ddywedodd amdano'i hun "Myfi yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd, nid oes neb yn dod at y Tad ond trwof fi." (Ioan 14) I ble mae ffordd ein bywyd ni yn ein harwain dybed? Gan ein bod wedi ein gosod ar y Ffordd sy'n arwain at Dduw y Tad a'r bywyd tragwyddol sydd yn yr adnabyddiaeth o Iesu, mae gennym reswm gogoneddus dros addoli Duw a rhoi diolch iddo!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres a gafwyd ar Galatiaid.
- Mawrth
lau • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **"Give me this Mountain"** gyda Graham Kendrick, SOW Acapella, Dai Woolridge, Cwmni Theatr Going Public a Paul Francis yng Nghanolfan Gristnogol Kings, Pwll Glas, Bailey Hill, Yr Wyddgrug CH7 1RA am 7.30. Drysau yn agor am 7.00. Tocynnau: £6. Cysylltwch â Mair erbyn dydd Llun os am sicrhau tocyn.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sul nesaf

Oedfa Arbennig i'r Fro

yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees
a rhai o ieuenctid y Fro
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth
Sul nesaf Cinio'r Jangl am 12.00.
- Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Hefyd, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ar ddechrau'r oedfa er mwyn ethol blaenoriaid newydd ar gyfer Capel Tanyfron.
- Mercher Sgwrs a Phaned hefo Aneurin yng Nghanolfan Gymunedol Tanyfron am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd y Parch. T. E. Williams yn arwain oedfa ddiolchgarwch i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00. Bydd cyfle hefyd i ddod â nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd. Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sadwrn Ffair Hydref Capel Peniel yn Eirianfa, Dinbych o 10.00 ymlaen.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Saron (sylwch ar y newid lleoliad) am 2.00 pryd y bydd Rob ac Einir yn cyflwyno Robin Llewelyn i'w fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn y Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Llun Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghapel Henllan – gwasanaeth yng ngofal Rhodri Glyn a phlant Ysgol Henllan am 2.00, a bydd y Parch. Nan Powell Davies yn pregethu am 7.00. Bydd y casgliad tuag at Tŷ Croeso yn ôl dymuniad Ysgol Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.